# Ysgol Penmachno - Ein Cwricwlwm







‘Tyfu a Dysgu gyda’n gilydd’

# Ysgol Penmachno

Lleolir ein hysgol ym mhentref gwledig Penmachno, ger Betws y Coed, Sir Gonwy, a gwasanaetha'r pentref a'r ardaloedd cyfagos. Dynodir yr ysgol yn ysgol Gymraeg categori 1 yn ôl polisi iaith yr awdurdod addysg; golyga hyn mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.

Mae disgyblion Meithrin yn ymuno a ni'n foreol - mae croeso i ddisgyblion Meithrin ddod i'r ysgol y tymor canlynol wedi eu pen-blwydd yn dair oed.

Ar hyn o bryd mae gennym ddwy ystafell ddosbarth ynghyd a dosbarth ychwanegol ar gyfer gweithgareddau Crefft, Coginio, Cerdd a Lles. Mae gennym Glwb Brecwast a Chlwb yr Urdd.

Mae'r ysgol yn ffodus i gael Coedwig, amryw ardal chwarae ynghyd ac iard a chae chwarae pwrpasol.



## *Ein gweledigaeth;*

*Fod pob plentyn sy'n mynychu Ysgol Penmachno yn cael mynediad llawn i Cwricwlwm Ysgol Penmachno.*

*Sicrhewn y cychwyn gorau phosib a sylfaen gadarn yn ôl eu gofynion ac anghenion mewn awyrgylch ac amgylchedd hapus, naturiol, chwilfrydig, brwdfyrdig, cyffyrddus, ysbrydoledig a heriol; hyn oll er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cyrraedd eu llawn potensial ac yn ddysgwyr gydol oes.*

*Credwn yn gryf mewn rhoi cyfleoedd a phrofiadau eang a chytbwys, profiadau dysgu wrth wneud, defnyddio ein ardal leol a'n cymuned fel eu bod gyda sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol.*

*Drwy ddysgu a thyfu gyda'n gilydd fe fydd yn rhoi gwreiddiau cadarn, chwilfrydedd a brwdfrydedd i'n dysgwyr i fod yn;*

* *Ddysgwyr Uchelgeisiol a Galluog*
* *Cyfranwyr Mentrus a Chreadigol*
* *Ddinasyddion Egwyddorol a Gwybodus*
* *Unigolion Iach a Hyderus*

## *Rhesymeg ar gyfer ein cwricwlwm;*

**Profiadau eang, cytbwys a chyffrous**

Llais y dysgwyr

Dysgu Gweithredol

Heriol

Blaengar

**Hinsawdd lle y gall pawb ddatblygu**

Sylfeini Cadarn

Cymysgedd o ddulliau addysgu a dysgu

Addysgu arbennig

Annibyniaeth

**Profiadau naturiol Dysgu yn yr awyr agored**

Cymuned lleol

Ysgol Goedwig

Dysgu wrth wneud

**Beth yw ystyr Cwricwlwm?**

Dylai'r cwricwlwm fod wrth galon unrhyw ysgol, a dylai cwricwlwm Ysgol Penmachno fod yn rhoi gwreiddiau cadarn in dysgwyr ar sail y 4 diben er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn reiddiol i ni fel dysgwyr ac ymarferwyr.

Mae ein cwricwlwm yn eang, cytbwys ac addas ar gyfer ein holl dysgwyr.

Mae sicrhau fod pob dysgwr yn gwneud cynnydd yn hanfodol yn Ysgol Penmachno gan ymateb i anghenion, diddordebau a'r cymuned gan sicrhau fod llais y disgybl yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud a'i gynnig.

**Pam ydym ni'n addysgu hyn?**

Er mwyn darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel, sy'n cyffroi ac yn ysgogi'r dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

**Sut ydym ni'n addysgu?**

Bydd athrawon yn hwyluswyr dysgu. Ystyrir anghenion, barn a chynnydd dysgu'r dysgwyr. Byddant yn cynllunio profiadau hwyliog, heriol a blaengar. Bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Fel arbenigwyr, staff addysgu fydd yn cyfarwyddo'r dysgu i gyfeiriad priodol gan ystyried barn a syniadau'r dysgwyr.

Bydd y dysgwyr yn cael barn ar eu hamgylchedd dysgu a chyfleoedd i weithio mewn ffydd i gyfoethogi eu dysgu.

**Cyfleoedd Cyffrous**

Bydd gan y dysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu.

Bydd athrawon yn ystyried anghenion, safbwyntiau

a chamau dysgwyr ac yn cynllunio profiadau cyffrous, heriol a blaengar ar draws bob Maes Dysgu a Phrofiad.

**Dysgu yn yr Awyr Agored**

Bydd profiadau dysgu yn datblygu ac yn gwreiddio'r 4 diben.

Mae Ysgol Penmachno mewn ardal wledig ac ar safle sydd yn cynnig llawer o gyfleodd addysgu yn yr awyr agored, bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu dilys a hwyliog ar sail yr ysgol ac yn ein cymuned leol gan annog disgyblion i fwynhau ffordd iach o fyw.

**Hinsawdd y Dosbarth**


Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu.

Byddant yn cael cyfleoed i weithio mewn ffyrdd sy'n gwella eu dysgu a hefyd i gyflwyno eu gwith yn eu ffordd bersonol.

# Ein gwerthoedd;

| Ein gwerthoedd | Ein hymddygiad |
|---|---|
| **Parch ac ymddiriedaeth** | Mae pawb yn yr ysgol yn unigryw- yn ddysgwyr a theuluoedd, yn staff a rhanddeiliaid. Rydym yn onest ac agored wrth ein gwaith a pharchwn farn a theimladau pawb. |
| **Lles a Gofal** | Rydym yn dangos empathi, gofal a chonsyrn am les pawb. Rydym yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel a bod gan bawb lais sy'n cael ei glywed. |
| **Hapusrwydd a Mwynhad** | Mae ethos pob dosbarth a phrofiadau dysgu yn ysbrydoli ein dysgwyr. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn mwynhau profiadau a datblygu cymhelliant wrth ddysgu. |
| **Gwytnwch a hyder** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol yn ddysgwr a staff i fod yn hyderus  a balch o'n hunain, i groesawu her ac i ddyfalbarhau i gyrraedd ein nod. |
| **Cymru a Chymreictod** | Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith. |
| **Cymuned a Chynefin** | Rydym yn chwarae rhan lawn ym mywyd ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Rydym yn dathlu a gwarchod ein cynefin. |
| **Mentro ac Arloesi** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddysgwyr a staff, i fentro'n hyderus, i feddwl yn greadigol a thorri tir newydd  ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau. |
| **Cefnogi a Chydweithio** | O fewn ein dosbarthiadau, ein hysgol ac ar draws ein clwstwr o ysgolion, rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus. |

# 4 Diben y Cwricwlwm i Gymru;




*Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddod yn:*

- ***Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*** *sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau*
- ***Cyfranwyr mentrus, creadigol*** *sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith*
- ***Dinasyddion moesegol, gwybodus*** *sy'n barod i gymryd rhan yng Nghymru a'r byd*
- ***Unigolion iach, hyderus*** *sy'n barod i arwain bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas*

# 4 Diben Ysgol Penmachno;

*Yn sgil datblygiadau diwygio'r Cwricwlwm i Gymru, rydym wedi addasu'r Pedwar Diben y Cwricwlwm newydd a'u personoli ar gyfer ein Cwricwlwm yn Ysgol Penmachno. Dewch i gyfarfod ein pedwar cymeriad sy'n cynrychioli'r Pedwar Diben.*

Urien | Clem | Gwil | Iona



# Y 12 Egwyddor Addysgeg;

*Mae'n gwricwlwm yma yn Ysgol Penmachno yn cael ei ategu gan y 12 egwyddor addysgeg. Mae'n galluogi ein hathrawon a'u timoedd i ystyried y pam, y sut, yn ogystal â'r beth, er mwyn i ni allu datblygu dealltwriaeth gadarn o addysgu a dysgu da gan geisio gwireddu Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr. Rhoddir sylw i brosesau myfyrio ac asesu trwy gydol y flwyddyn ysgol a chyfleoedd i staff yr ysgol gyfan fesur ac adfyfyrio ar effeithiolrwydd eu darpariaeth yn ogystal â'n haddysgeg. O ganlyniad, mae hyn yn ein caniatáu fel cymuned ysgol i barhau i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu, gan ymgymryd â dysgu proffesiynol.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creu cyd-destunau dilys. | Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a dablygu fel dysgwyr anibynnol. | Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol. | Hybu cydweithio. |
| Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy. | Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu. | Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol ar gallu i feddwl yn feirniadol. | Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb. |
| Canolbwyntio ar wireddu'r 4 Diben. | Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol. | Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu. | Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd- Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol. |

# Cynllunio;

Wrth gynllunio byddwn yn rhoi sylw manwl i'r PAM? BETH? a SUT

Rydym bob amser yn sicrhau bod rheswm a rhesymeg glir pam ein bod yn dewis thema, cyd-destun a gweithgareddau i sicrhau dysgu sydd yn ddilys a phwrpasol. Er bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Fel arbenigwyr, staff addysgu fydd yn cyfarwyddo'r dysgu i gyfeiriad priodol gan ystyried barn a syniadau'r dysgwyr. Bydd ffocws yn cael ei roi ar agweddau penodol ar y datganiadau MDaPh er mwyn sicrhau dyfnder yn eu dysgu. Rydym yn manteisio ar gynllunio ar y cyd er mwyn addysgu tîm a manteisio ar arbenigedd staff.

## PAM?

Llais y disgybl
Prosiect Cymunedol
Ffocws ysgol gyfan
Canfyddiadau asesiad
4 Diben
Gofynion y disgybl
Mater lleol
Yn y newyddion
Blaenoriaeth ysgol gyfan

**Pam ydan ni'n dysgu hwn?**
Rhyddid a hyblygrwydd i athrawon ddewis hyn sydd orau i'n dysgwyr.

Rhesymeg glir.

## BETH?

Sgiliau cyfannol

Camau cynnydd

Disgrifiadau dysgu

Sgiliau trawscwricwlaidd

Themau trawscwricwlaidd

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

**Pa elfennau sydd angen eu hystyried?**

Gwybodaeth a dealltwriaeth o holl ganllawiau'r cwricwlwm a sut meant yn plethu gyda'i gilydd i ysgogi'r dysgu.

## SUT?

Addysgeg ac asesu

**Sut ydan ni'n mynd i'w ddysgu?**

Penderfynu ar y dulliau addysgu mwyaf effeithiol i ddyfnhau'r dysgu a sicrhau'r profiad dysgu gorau i bawb.

Defnyddio asesu cyn, yn ystod ac ar ôl y dysgu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd.

# Cynllunio;

Defnyddir cyfuniad o ddulliau cynllunio'r cwricwlwm yn Ysgol Penmachno yn unol ag oedran y dysgwyr a chyd-destun y dysgu. Mae'r ysgol yn dilyn themâu traws ysgol ble gweli'r cynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall. Cynllunnir pob profiadau dysgu'r ysgol ar draws yr ysgol drwy roi sylw penodol i weithgareddau, profiadau ac ymweliadau pwrpasol.

Mae llais y plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn bwysig iawn i ni ac mae hyblygrwydd yn ein cynllunio i ddilyn trywydd gwahanol/ lleol/ byd eang fel y bydd cyfle'n codi er mwyn gwneud ein profiadau dysgu yn berthnasol, diddorol ac amserol.

Mae elfennau Iechyd a Lles yn bwysig i ni yn Ysgol Penmachno manteisir a'r cyfleoedd allgyrsiol. Mae ein gardd lysiau a ffrwythau, gerddi natur ar y safle. Rydym yn ffodus iawn i gael Coedwig ble mae holl weithgareddau a chyfleoedd Ysgol Goedwig yn cael eu hymarfer. Rydym yn ymfalchïo yn y cyswllt yr ydym wedi ei greu gyda'r gymuned leol ac ehangach.

Rydym yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn wythnosol yn ein Gwasanaeth Gwobrwyo.
Mae ein Cynghorau o fewn yr Ysgol yn cymryd rhan weithredol yn eu cyfrifoldebau a'u swyddi sy'n deillio o eu cynghorau. Dyma ddyluniadau buddugol sydd wedi eu cynllunio yn ddigidol i adlewyrchu ein balchder at ein cynghorau.



## Iechyd a Llesiant

Yn Ysgol Penmachno rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo iechyd meddwl a llesiant ein cymuned ysgol.

Rydym yn cefnogi anghenion lles ein holl ddysgwyr i sicrhau eu bod yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel, hapus a hyderus i gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae iechyd a lles yn greiddiol i Ysgol Penmachno. Mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddatblygu unigolion iach a chryf gydag agwedd positif tuag at dysgu, o fewn amgylchedd gofalgar a meithringar.

Mae holl aelodau y gymuned ysgol yn chwarae rôl hanfodol mewn hyrwyddo ethos cadarnhaol sy'n annog dysgwyr i ffynnu, gwneud cynnydd a datblygu eu sgiliau a'u cryfderau wrth baratoi tuag at fywyd fel oedolion.

Rydym yn cefnogi ein dysgwyr trwy amrywiol raglenni amrywiol megis; Elsa ac Ysgol Iach. Rydym ar hyn o bryd yn gwreiddio'r fframwaith Emosiynol a Iechyd Meddwl a Llesiant statudol sydd yn sicrhau bod Lles yn parhau'n flaenoriaeth ar draws yr ysgol.

Mae holl ddisgyblion yr Ysgol yn cael cyfleoed i gymryd rhan mewn gweithgareddau Llun Lles, Ysgol Goedwig yn wythnosol a Gwener Gwych.

## Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Mae ein darpariaeth yn Ysgol Penmahcno yn defnyddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd statudol sy'n galluogi ein dysgwyr i weithio tuag at wireddu'r Pedwar Diben

Mae'r tri sgìl trawsgwricwlaidd, Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol yn galluogi pob unigolyn i gael mynediad at y ddarpariaeth briodol er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol.

Mae'n dysgwyr yn cael cyfleoedd i;


- Ddatblygu sgiliau cyfathrebu
- Defnyddio rhifau a datrys problemau o fewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- Defnyddio amrywiaeth o dechnolegau i'w helpu i gyfathrebu a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.

## Teuluoedd a Chymuned

Mae cydweithio â'n rhieni/ gofalwyr a'n cymuned ysgol yn hollbwysig i ni yn Ysgol Penmachno. Rydym yn darparu cyfleoedd amrywiol i rieni ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o raglenni ac ymyriaethau rydym yn cynnig i'r disgyblion. Mae gennym berthynas cryf gyda darpariaethau wedi'u cefnogi gan y gymuned yn ogystal â busnesau lleol.



## Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Ieithoedd, Llythrennedd, Cyfathrebu | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |  |
| Cerddoriaeth<br>Celf<br>Drama<br>Dawns | Addysg Gorfforol<br>Addysg Bersonol Gymdeithasol Iechyd ac Economaidd | Cymraeg/ Saesneg<br>Darllen<br>Ysgrifennu<br>Llafaredd | Daearyddiaeth<br>Hanes<br>Addysg Grefyddol | Rhif<br>Trin Data<br>Gofod, Siapiau a Mesur | Gwyddoniaeth<br>Dylunio a Thechnoleg<br>Technoleg Bwyd<br>Technoleg Gwybodaeth |

## Sgiliau Trawsgwricwlaidd

| Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwystedd Digidol |
|---|---|---|
| • Llafaredd<br>• Darllen<br>• Ysgrifennu | • Datblygu'r hyfedreddau mathemategol<br>• Defnyddio Sgiliau Rhifau<br>• Defnyddio Sgiliau Mesur<br>• Defnyddio Sgiliau Data | • Rhyngweithredu a chydweithio<br>• Dinasyddiaeth<br>• Cynhyrchu<br>• Data a Meddwl Cyfrifiadurol |

## Themâu Trawsbynciol


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Addysg Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | Amrywiaeth | Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Cyd-destun Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol |

# Datganiadau'r hy'n sy'n bwysig;

*Bydd y datganiadau o'r hy'n sy'n bwysig ar gyfer pob MDaPh yn sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd, dyfnder ac ehangder sgiliau a gwybodaeth.*

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau |
| Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol | Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd | Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch | Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas |
| Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg | Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol | Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi |
| | Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl | Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd | Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau |
| | Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles | Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol | | | Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd<br>Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol |
| | | | | | Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol |

# Galluogi Dysgwyr;




Mae'r cwricwlwm hwn yn cysylltu ag egwyddorion datblygiad plant yn ogystal â'r Pedwar Diben. Mae'n darparu amrywiaeth o brofiadau o fewn amrywiaeth o gyd-destunau. Rydym yn defnyddio'r cwricwlwm ochr yn ochr â'n gwybodaeth a'n profiadau i fyfyrio ar ac ymateb i anghenion unigol y disgyblion ieuengaf yr ysgol. Mae cynllunio effeithiol yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau o amgylchedd ac adnoddau ein hysgol.

Mae pum llwybr datblygiadol sy'n chwarae rôl bwysig yn dysgu a datblygiad ein disgyblion. Mae'r llwybrau hyn wedi cael eu datblygu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd ar eu cyflymder eu hunain.

Y pum llwybr datblygiadol; Perthyn, Cyfathrebu, Archwilio, Datblygiad Corfforol a Llesiant

## Arsylwadau

Mae arsylwi yn chwarae rôl allweddol yn Ysgol Penmachno. Mae'n helpu i ddysgu am yr hyn sy'n rhoi cymhelliant, sydd o ddiddordeb, ac yn diddanu ein dysgwyr. Rydym yn defnyddio'r arsylwadau hyn i gefnogi ein cynllunio. Rydym yn arsylwi ar ddisgyblion yn ddyddiol, y tu mewn yn ogystal â'r tu allan. Rydym yn ystyried pryd a sut i ryngweithio orau â'n dysgwyr yn ystod eu dysgu.

## Asesu Disgyblion

Mae asesu yn help i ni ddysgu beth mae'n ddysgwyr yn gallu gwneud, mae'n galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio. Mae'n rhoi gwybod i'n staff am ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol y dysgwyr ar draws y pum llwybr datblygiadol a camau cynnydd. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu strategaethau sy'n rhoi cymhelliant i'r dysgwyr.

# Asesu a Chynnydd;

*Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau mai cynnydd dysgwyr yw prif bwrpas Asesu ac nid ymarfer atebolrwydd. Rydym ni yn Ysgol Penmachno yn datblygu darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr yr ysgol a'r clwstwr ac ar drafodaethau rheolaidd gyda rheini a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant.*

*Bydd yr ysgol yn cyflawni **Dibenion Asesu'r Cwricwlwm** fel a ganlyn:*


1. ***Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd***

*Mae asesu ffurfiannol o ansawdd cyson uchel ar lawr dosbarth o ddydd i ddydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chamau nesaf i ddysgwyr ac ymarferwyr.*

2. ***Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser***
3. ***Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion***

*Neilltuir cyfnodau penodol a rheolaidd i ymarferwyr drafod cynnydd ac anghenion dysgwyr a grwpiau penodol o ddysgwyr drwy ddeialog broffesiynol er mwyn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach. Bydd trafodaethau o'r fath hefyd yn hwyluso ac yn hyrwyddo unrhyw drosglwyddo a phontio rhwng dosbarthiadau ac ysgolion.*

*Gwneir defnydd ffurfiannol o brofion cenedlaethol a phrofion safonedig e.e. PASS a CAT4 yn ôl y galw yn y trafodaethau hyn. Cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i drafod cynnydd gan gynnwys asiantaethau allanol pan fo angen.*



# Ysgol Penmachno



## ‘Tyfu a Dysgu gyda’n gilydd’